Chwarae Teg



# Profiadau Menywod Ifanc o Gyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd yng Nghymru

---

CRYNODEB GWEITHREDOL

# Cyflwyniad

Gweledigaeth Chwarae Teg yw Cymru decach ble mae menywod yn llwyddo a ffynnu. Gan weithio gyda menywod, busnesau, addysgwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ers 1992, nod Chwarae Teg yw sicrhau fod menywod yn llwyddo a ffynnu ar draws pob sector ac ar bob lefel yn yr economi. Eu nod hefyd yw sicrhau bod menywod yn weladwy ac yn ddylanwadol ar draws pob sector o'r economi, y gymdeithas a bywyd cyhoeddus, a'u bod yn cael eu grymuso i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir, statws cymdeithasol, neu leoliad daearyddol.

Mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi'i arwahanu'n sylweddol o hyd ar sail rhywedd. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn swyddi uwch mewn llawer o sectorau, ac maent yn llawer llai tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau sy'n cael eu gweld fel rhai "gwrywaidd" yn draddodiadol, fel adeiladu, peirianneg a gweithgynhyrchu. Mae'r anghydraddoldeb a'r arwahanu hwn yn cael ei siapio gan y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn gynnar yn ein bywydau. Wrth i'n heconomi drawsnewid, mae sectorau fel technoleg werdd a digidol yn debygol o weld twf sylweddol, ond heb ymyrraeth rydym yn debygol o weld yr un anghydraddoldeb yn cael ei ail-greu a'i atgyfnerthu yn y sectorau hyn sy'n dod yn fwyfwy amlwg. Mae cyngor ac arweiniad gyrfaoedd felly'n arf hollbwysig wrth herio syniadau ystrydebol am lwybrau gyrfa a mynd i'r afael ag arwahanu ar sail rhywedd yn y gweithle.

Mae'r ymchwil hwn yn archwilio pa mor dda y mae gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru'n cwrdd ag anghenion menywod ifanc, ac yn ceisio adnabod a deall yr heriau wrth i ni ddod o hyd i'r ffordd a gwella ar ôl pandemig Covid-19. Trwy ymchwil desg, arolwg ar-lein o fenywod ifanc ac ymgysylltiad â darparwyr cymorth gyrfaoedd, rydym wedi ystyried yr argaeledd cymorth gyrfaoedd, modelau cynnwys a darparu, effaith y pandemig, a chanfyddiadau a dealltwriaeth ehangach o wasanaethau gyrfaoedd.



# Pandemig

Amharodd y pandemig ar fynediad i addysg a phrofiadau, fel profiad gwaith a digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr, am fod digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'u dileu, a bod angen i fusnesau ac addysg symud i weithio o bell er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol. Mae hyn wedi lleihau'r cyfleoedd sydd gan fenywod ifanc i rwydweithio, i siarad yn anffurfiol ag oedolion ac i ddysgu drwy brofiad ymarferol. Roedd hyn yn rheswm allweddol dros yr amrywiaeth sylweddol oedd rhwng atebion y gwahanol grwpiau oedran o fenywod ifanc a ymatebodd, gan gynnwys: ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau; y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer cael cymorth gyrfaoedd; a phrofiad o wasanaethau wedi'u targedu megis datblygu sgiliau meddal, cwblhau profiad gwaith a chyngor am ddiwydiannau newydd ac rhai sy'n dod i'r amlwg.



Er enghraifft, dim ond 39% o ymatebwyr 14-18 mlwydd oed sydd wedi cwblhau profiad gwaith o'i gymharu ag 88% o ymatebwyr 19-25 mlwydd oed. Y ffordd fwyaf cyffredin ar gyfer trefnu profiad gwaith i'r grŵp oedran hŷn oedd drwy'r ysgol, ond y ffordd fwyaf cyffredin i'r grŵp oedran iau oedd ar eu pen eu hunain neu drwy riant neu berthynas. Mae hyn yn peri pryder o safbwynt cydraddoldeb gan fod dibyniaeth ar rieni neu berthnasau i gefnogi profiad gwaith yn effeithio'n negyddol ar y rhai sydd â llai o gysylltiadau, a bydd yn cynyddu'r bwlch cyfleoedd ymhellach.

Cafodd mesurau pellter cymdeithasol y pandemig effaith ar y llwybr darparu cymorth hefyd, gyda chynnydd gorfodol mewn darpariaeth cymorth, addysg a gwaith ar-lein. Adroddodd 10 o'r 13 o'r darparwyr gwasanaethau gyrfaoedd a ymatebodd i'r arolwg fod eu gwasanaethau wedi newid oherwydd pandemig Covid-19. Rhannodd wyth ohonynt fod yna symudiad wedi bod tuag at ddarparu ymgynghoriadau rhithiol neu o bell gyda defnyddwyr eu gwasanaethau ar-lein, drwy e-bost, neu dros y ffôn. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfleoedd i gysylltu'n rhithiol wedi cynyddu mynediad i ddigwyddiadau ac i unigolion a fyddai fel arall yn amhosibl oherwydd eu lleoliad daearyddol a bydd yn bwysig meithrin dull cyfunol wrth symud ymlaen, gyda chymysgedd o wasanaethau gyrfaoedd wyneb yn wyneb a rhithiol.

# Argaeledd Cymorth Gyrfaoedd a Dulliau Cyflwyno

Mae stereoteipiau rhywedd yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru ac yn arbennig o amlwg ym mhenderfyniadau menywod ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel, er enghraifft y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er mwyn helpu i herio stereoteipiau rhywedd ac arwahanu galwedigaethol, mae'n hanfodol cynyddu amlygrwydd menywod mewn rolau amrywiol ar draws pob sector ac ar bob lefel o arweinyddiaeth. Dywedodd menywod ifanc fod cysylltu â menywod mewn rolau a diwydiannau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt trwy brofiad gwaith, rhwydweithio, ymgysylltu â chyflogwyr a chynlluniau mentora, wedi bod yn rhan allweddol o'u datblygiad, cymorth ac addysg gyrfa.

Er bod gan Gymru rwydwaith cryf o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol, ac felly mewn sefyllfa dda i ddarparu cymorth cyfannol, priodol i anghenion amrywiol menywod ifanc yng Nghymru, oherwydd toriadau cyllid mae yna fylchau yn y cymorth ar gyfer profiad gwaith a gostyngiad sylweddol yn y cymorth un-i-un sydd ar gael, ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar fenywod ifanc yng Nghymru. Tra bod lefel uchel o ymwybyddiaeth ymysg menywod ifanc o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd ehangach, mae yna fwlch sylweddol rhwng ymwybyddiaeth a defnydd gwirioneddol o wasanaethau.

Mae cyfrifoldeb enfawr am gymorth gyrfaoedd anffurfiol yn cael ei roi ar athrawon. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o beth yw'r ffordd orau i'w galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur a'u hyfforddi i herio stereoteipiau, heb roi gormod o bwysau ychwanegol arnynt. Mae angen i athrawon gymryd rhan mewn hyfforddiant gyrfaoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn gallu rhannu gwybodaeth am lwybrau gyrfa amrywiol i'w disgyblion. Er hyn, mae'n hanfodol bod gwasanaeth gyrfaoedd yn ei le er mwyn i athrawon gyfeirio menywod ifanc at gynghorwyr gyrfa proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi, yn ôl yr angen.

**Meysydd allweddol ar gyfer gwelliant sydd wedi'u nodi:**

- Cau'r bwlch rhwng ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau gyrfaoedd
- Cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau'n digwydd yn rhy hwyr yn 14-16 mlwydd oed
- Symud oddi wrth ddarpariaeth 'yr un ateb i bawb'
- Creu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau gyrfaoedd a rhieni
- Gwella a chynyddu cymorth a hyfforddiant i athrawon





# Cynnwys Cymorth Gyrfaoedd

Roedd bron hanner y menywod ifanc a ymatebodd i'r arolwg, 42%, yn teimlo fod cymorth gyrfaoedd **wedi rhoi'r** hyn oedd ei angen arnynt, tra dywedodd 26% **nad oedd** cymorth gyrfaoedd wedi rhoi'r hyn oedd ei angen arnynt. Adroddodd 67% o ymatebwyr 19-25 mlwydd oed eu bod wedi ymgysylltu â chyflogwyr posibl, o'i gymharu â dim ond 46% o ymatebwyr 14-18 mlwydd oed. Dim ond 18% o ymatebwyr yn gyffredinol a adroddodd eu bod wedi ymgysylltu â chyflogwyr drwy sgyrsiau yn yr ysgol, coleg neu brifysgol.



**Meysydd allweddol ar gyfer gwelliant sydd wedi eu nodi:**

- Mwy o gymorth wedi'i dargedu ac ymyriadau i fenywod
- Cyfleoedd i fenywod ifanc glywed oddi wrth fodelau rôl a chael mynediad at fentora
- Gwybodaeth am ddiwydiannau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys 'swyddi gwyrdd'
- Cyngor ariannol fel rhan o gymorth ac addysg gyrfaoedd ehangach
- Mwy o gymorth o gwmpas profiad gwaith a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith

# Proffesiwn y Gwasanaethau Gyrfa

Mae angen mwy o gysondeb o ran ble a sut y caiff adnoddau eu diweddaru er mwyn sicrhau bod cyngor ac arweiniad gyrfa ar ddiwydiannau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn gyfoes. Dylai gweithwyr gwasanaethau gyrfaoedd gydweithio i greu canolfan adnoddau er mwyn i holl ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd gael mynediad at wybodaeth gyfoes am y farchnad lafur a diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau cysondeb o ran y cyngor a'r cymorth sydd ar gael.

Mae yna ddiffyg dealltwriaeth am sut y mae rhywedd yn siapio profiadau, cyfleoedd a chanlyniadau i fenywod ifanc. Ymddengys fod pwyslais mawr ar gyfleoedd cyfartal, gydag ystyriaeth fwy cyfyngedig o ran a yw menywod yn cael yr un manteision neu ganlyniadau o ddarpariaeth gwasanaethau gyrfaoedd. Dylai pob darparwr gwasanaethau gyrfaoedd wneud hyfforddiant ar gydraddoldeb a rhagfarn anymwybodol yn orfodol i bawb sy'n ymwneud â darparu addysg a chyngor gyrfa. Mae'n rhaid i'r hyfforddiant hwn ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cyfiawn, nid cydraddoldeb o gyfleoedd yn unig.







# Canfyddiad a Dealltwriaeth o Wasanaethau Gyrfaoedd

Mae angen gwella'r ddelwedd o wasanaethau gyrfaoedd gan mai'r naratif cyffredinol, yn enwedig ynghylch gwasanaethau gyrfaoedd mewn ysgolion, yw bod cyngor cynghorydd gyrfa am fod yn rhy gyffredinol, wedi'i stereoteipio yn ôl rhywedd ac yn debygol o gamarwain neu danbrisio'r derbynnydd. Fodd bynnag, mae darparwyr gwasanaethau gyrfaoedd yn weithwyr proffesiynol, cymwysedig, wedi'u hyfforddi sy'n gorfod gweithio i safonau uchel, ac mae'n ddisgwyliedig eu bod yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn i'w gwybodaeth fod yn gyfoes. Mae angen i addysgwyr ac eraill herio canfyddiadau negyddol a allai fod yn cadw lefelau ymgysylltu'n isel.

Mae gwelliannau yn y canfyddiadau o gynghorwyr gyrfa wedi eu nodi yn yr ymchwil hwn o'i gymharu ag adroddiad blaenorol Chwarae Teg: **Disglair: Dyheadau Gyrfa Menywod Ifanc**, gyda chynghorwyr gyrfa'n cael eu rhestru'n uwch fel ffynhonnell o gymorth, a gyda chynnydd yn y gyfran o fenywod ifanc sy'n dweud bod gwasanaethau cyngor gyrfa wedi dylanwadu eu penderfyniadau addysg a gyrfa.

Mae angen hefyd gwneud mwy er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o beth mae cyngor a chymorth gyrfa yn ei olygu. Mae angen i'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod a thrafod elfennau gwahanol o wasanaethau gyrfaoedd fod yn gyson ac yn fwy clir. Bydd hyn yn sicrhau bod menywod ifanc yn chwilio am ac yn defnyddio cymorth priodol yn ôl yr angen yn ystod eu bywydau. Gall elfennau o wasanaeth gyrfaoedd sydd wedi'u diffinio'n glir hefyd alluogi sgwrs am yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan gymorth gyrfa 'llwyddiannus', gan helpu i greu naratif mwy cadarnhaol ynghylch gwasanaethau gyrfa.



# Argymhellion

## Argaeledd cymorth gyrfaoedd a dulliau o gyflwyno:

**1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r buddsoddiad mewn addysg ac arweiniad gyrfaoedd er mwyn:
**a** Cynyddu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar gymorth ac arweiniad gyrfaoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyn opsiynau TGAU.
**b** Cefnogi ymgysylltiad â rhieni, gan eu galluogi nhw i ddarparu cymorth i'w plant wrth iddynt wneud penderfyniadau addysg a gyrfa.
**c** Gwella'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau gyrfaoedd mewn addysg ôl-orfodol.

**2.** Dylai darpariaeth hybrid o wasanaethau gyrfaoedd ddod yn norm, sy'n cynnwys mwy o ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac arweiniad wedi'i deilwra, cynnydd mewn adnoddau a gofod pwrpasol yn ôl yr angen.

**3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cymorth ac addysg gyrfaoedd effeithiol mewn ysgolion drwy:
**a** Ddarparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar athrawon er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad gyrfa sylfaenol.
**b** Darparu mynediad cyson at gynghorwyr gyrfa benodol o fewn ysgolion, sy'n gallu darparu cymorth mwy sylweddol i unigolion a sicrhau ymagwedd gynhwysfawr at addysg a chyngor gyrfa a gwaith o fewn yr ysgol.

## Cynnwys cyngor ac arweiniad gyrfaoedd:

**4.** Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth am ddiwydiannau newydd ac sy'n dod i'r amlwg, a 'swyddi gwyrdd' yn eu darpariad.

**5.** Dylai Gyrfa Cymru gymryd camau i ehangu mynediad at brofiad gwaith ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, a gwella'r niferoedd sy'n manteisio arnynt. Mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn, a dylai ategu'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith.

**6.** Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru weithio â phartneriaid i gynyddu mynediad at fentora, cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chyfleoedd i gyfarfod modelau rôl amrywiol ac y gall bobl uniaethu â nhw.

**7.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cyngor ac addysg ariannol i bobl ifanc, wedi'i gyflwyno naill ai drwy'r cwricwlwm newydd neu fel rhan o wasanaethau Gyrfaoedd Cymru.

**8.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn ymyriadau wedi'u targedu sy'n darparu cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i fenywod, ac sydd wedi eu dylunio gydag anghenion menywod mewn cof.

## Isadeiledd a swyddi gwasanaethau gyrfaoedd:

**9.** Dylai Gyrfa Cymru a chyrff cynrychioliadol megis y Sefydliad Datblygu Gyrfa weithio gyda'i gilydd i greu canolfan adnoddau er mwyn i bob darparwr gyrfaoedd gael mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ar y farchnad lafur, swyddi a sectorau sy'n dod i'r amlwg, a gweithio i ddod â chysondeb i'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael.

**10.** Dylai pob darparwr gyrfa wneud hyfforddiant cydraddoldeb a rhagfarn anymwybodol yn orfodol i bawb sy'n ymwneud â darparu addysg a chyngor gyrfaoedd. Dylai'r hyfforddiant hwn ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cyfiawn, nid cydraddoldeb cyfleoedd yn unig.

## Canfyddiad a dealltwriaeth o wasanaethau gyrfaoedd:

**11.** Dylid gwneud ymchwil pellach i ddeall beth sy'n achosi'r bwlch sylweddol rhwng ymwybyddiaeth o wasanaethau cyngor gyrfaoedd ac ymgysylltiad â'r gwasanaethau hynny.

**12.** Mae angen i Gyrfa Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff y diwydiant darparwyr gyrfa greu a chyfathrebu diffiniad sy'n cael ei rannu o beth mae cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn ei olygu, er mwyn gwella'r canfyddiad a'r ddealltwriaeth o wasanaethau gyrfa.

www.chwaraeteg.com

02920 462 745

policyandresearch@chwaraeteg.com